**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

16 Hydref 2025

Annwyl Elin,

## Adolygu Effeithiolrwydd y Pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd

Diolch am y gwahoddiad i ymateb i'r adolygiad o effeithiolrwydd y pwyllgorau. Rydym yn croesawu'r adolygiad pwysig ac amserol hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd ei ganfyddiadau'n cryfhau ein trefniadau craffu a bywiogrwydd y parth cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y Senedd nesaf ac yn y tymor hir.

At ddibenion tryloywder, nodwn fod un o'n Haelodau, Jane Dodds, hefyd yn aelod o Bwyllgor Senedd y Dyfodol, a bod argymhellion y Pwyllgor hwnnw wedi llywio'r adolygiad hwn, i ryw raddau.

Mae ein sylwadau manwl wedi'u hatodi i'r llythyr hwn ac wedi'u grwpio yn ôl y tair thema a nodwyd gennych. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno'n unfrydol ar gynnwys y cyflwyniad hwn, sy'n golygu ei fod wedi'i gymeradwyo gan Aelodau o bob un o'r pedair prif blaid wleidyddol a etholwyd i'r Senedd. Rydym yn gobeithio y byddwch yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'n sylwadau, ac rydym yn edrych ymlaen at ddarllen eich adroddiad maes o law.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

# Atodiad

## 1. Diwylliant Pwyllgorau

Yn y Senedd nesaf, mae'n edrych yn bur debyg y bydd cyfran sylweddol o’r Aelodau yn cael eu hethol i'r rôl am y tro cyntaf. Mae'n hanfodol eu bod yn deall y rheolau ysgrifenedig ac anysgrifenedig sy'n sail i'n Senedd, yn ogystal ag ethos cyffredinol y sefydliad, sydd wedi'i wreiddio mewn traddodiad democrataidd, rhyddfrydol, lluosogaethol.

Mae diwylliant pob pwyllgor yn cael ei lywio, i ryw raddau, gan hoffterau a thueddiadau ei Gadeirydd a'i Aelodau. Fodd bynnag, mae pob pwyllgor yn y Senedd yn ddarostyngedig i rai rheolau a disgwyliadau cyffredin sy'n hanfodol i'w heffeithiolrwydd ac sy’n dylanwadu’n sylweddol ar ddiwylliant a deinameg y pwyllgorau. Yn benodol, byddem yn pwysleisio'r canlynol:

- Pwyllgorau fel fforymau ar gyfer cydweithio: Nodwedd hanfodol o waith pwyllgorau’r Senedd yw’r disgwyliad cyffredinol eu bod yn fforymau lle mae’r Aelodau’n cydweithio’n ddidwyll i ymchwilio i faterion, i graffu ar bolisïau neu ddeddfwriaeth, ac i ddwyn y Llywodraeth, cyrff cyhoeddus ac eraill i gyfrif. Dylai Seneddau'r dyfodol gadw ac atgyfnerthu'r disgwyliad hwn ymhlith yr holl Aelodau o'r cychwyn cyntaf.

- Natur amhleidiol gwaith y pwyllgorau: Pan fydd Aelodau’n mynd i mewn i ystafell bwyllgora, dylent adael eu gwleidyddiaeth bleidiol wrth y drws. Y Cyfarfod Llawn yw'r fforwm mwyaf priodol ar gyfer gwleidyddiaeth bleidiol. Er nad oes modd osgoi anghytuno mewn cyfarfodydd pwyllgor, dylid gwyntyllu’r materion dan sylw yn ddidwyll a chan ddangos parch at eraill.

- Yr egwyddor o wneud gwaith craffu sy'n seiliedig ar dystiolaeth: Rhaid i holl waith y pwyllgorau – gan gynnwys y safbwyntiau, y casgliadau a'r argymhellion y maent yn eu cyhoeddi – fod yn seiliedig ar y dystiolaeth sy’n dod i law.

### Cytuno ar weledigaeth gyffredin

Agwedd bwysig arall ar greu diwylliant y pwyllgorau yw cytuno ar weledigaeth gyffredin. Gall hyn fod yn her i unrhyw grŵp trawsbleidiol sy’n cynnwys aelodau o gefndiroedd amrywiol sydd â syniadau a diddordebau gwahanol. Mae ein profiad ni’n awgrymu mai un ffordd effeithiol o oresgyn y rhwystr posibl hwn yw cynnal sesiwn gynllunio strategol ar gyfer yr Aelodau a’r swyddogion yn gynnar yng

nghylch bywyd y pwyllgor, a chynnal trafodaethau wedi'u hwyluso gan hwylusydd allanol. Yn ein barn ni, roedd yr ymarfer hwn yn amhrisiadwy o ran dwyn Aelodau'r pwyllgor ynghyd, ac o ran sicrhau ymdeimlad cliriach o gyfeiriad a phwrpas ein gwaith ers hynny. Yn sgil yr ymarfer hwn, cawsom ddealltwriaeth gyffredin hefyd o sut i fynd i'r afael â'n cylch gwaith trawsbynciol, yn ogystal â fframwaith ar gyfer gwaith gwerthuso cyfnodol. Byddem yn argymell bod pob pwyllgor yn mabwysiadu dull gweithredu tebyg. Rydym hefyd yn argymell bod sesiynau o'r fath yn cael eu cynnal i ffwrdd o ystâd y Senedd, yn ddelfrydol gyda rhyw elfen o her allanol.

## 2. Trefn Busnes

Mae ein sylwadau ym maes trefn busnes wedi'u llywio gan y modd yr ydym wedi gweithredu fel Pwyllgor, yn ogystal â'n gwybodaeth a'n profiad cyfunol fel seneddwyr dros nifer o flynyddoedd. Yng nghyd-destun Senedd fwy o faint, sy'n cynnwys 96 o Aelodau, rydym yn cynnig y sylwadau a ganlyn:

Swyddogaethau'r pwyllgorau: Rydym yn teimlo'n gryf bod cael pwyllgorau sy'n ymdrin â pholisi a deddfwriaeth ar y cyd yn gwella'r gwaith craffu a wneir, gan alluogi'r Aelodau i wneud cysylltiadau rhwng y ddau faes a chaniatáu iddynt gasglu gwybodaeth a meithrin arbenigedd am bynciau. Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y risg y gall blaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth, os ydynt yn ymwneud â maes pwnc penodol, lesteirio gallu unrhyw bwyllgor i ymgymryd â gwaith craffu ar bolisïau. Dylai'r Pwyllgor Busnes fod yn ymwybodol o'r risg hon wrth bennu cylchoedd gwaith y pwyllgorau. Ar y cyfan, fodd bynnag, credwn fod cael pwyllgorau sy'n ymdrin â pholisi a deddfwriaeth ar y cyd yn system fwy effeithiol na'r dewis arall, a dylid cadw'r drefn hon mewn Seneddau yn y dyfodol.

Cylchoedd Gwaith: Credwn y dylid adnewyddu ein cylch gwaith arloesol, trawsbynciol yn y Senedd nesaf, ac y dylai'r cylch gwaith hwn gwmpasu'n fras yr un materion. Rydym yn pryderu bod gwahaniaethau yn mhortffolios y Gweinidogion, o bryd i'w gilydd, yn cael eu defnyddio fel esgus i osgoi cwestiynau anodd ac, yn sgil hynny, atebolrwydd. Yn y pen draw, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol, ar y cyd, am benderfyniadau'r Llywodraeth, ac mae'r gwaith craffu a wneir gan Senedd Cymru yn egwyddor hollbwysig yn ein system o oruchwyliaeth ac atebolrwydd democrataidd. Rydym hefyd yn credu bod newidiadau cyson i bortffolios y Gweinidogion yn niweidiol o ran gwneud penderfyniadau hirdymor ac o ran effeithiolrwydd y Llywodraeth. Fel y mae'r Sefydliad Llywodraethu wedi'i nodi, mae newidiadau cyson i beirianwaith y Llywodraeth yn arwain at aflonyddwch a cholli cynhyrchiant.[1] O ystyried y ffaith y bydd y Senedd nesaf yn symud i dymor o bedair blynedd, mae'n

[1] Y Sefydliad Llywodraethu, Machinery of government changes, 3 Ebrill 2023

bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gadw portffolios y Gweinidogion yn weddol sefydlog yn ystod y cyfnod dan sylw. Dylai hyn sicrhau bod llai o rwystrau i waith craffu. Ar ben hynny, drwy ganiatáu i weision sifil ganolbwyntio ar gyflawni, bydd yn gwella effeithiolrwydd cyffredinol y Llywodraeth.

Aelodaeth: Rydym yn ffafrio pwyllgorau â nifer llai o Aelodau. Credwn mai chwech yw'r nifer delfrydol o Aelodau ar gyfer pwyllgor sy'n ymdrin â pholisi a deddfwriaeth ar y cyd.

Amserlen: Rydym wedi croesawu'r hyblygrwydd sydd ynghlwm wrth yr amserlen bresennol. Fodd bynnag, credwn y dylai'r adolygiad hwn archwilio effaith yr amserlen ar sut mae pwyllgorau'n gweithredu, eu heffeithiolrwydd a'u llwyth gwaith. Credwn y byddai'n werthfawr asesu pa mor aml y mae gwahanol bwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd, yn benodol, ac archwilio a yw'r hyblygrwydd newydd sy'n gysylltiedig â'r amserlen yn gweithio'n unol â'r bwriad gwreiddiol. Yn ein hachos ni, rydym wedi defnyddio ein slotiau wrth gefn yn aml. Credwn y dylid gwrthdroi'r dybiaeth ddiofyn fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos, a sefydlu tybiaeth fod pwyllgorau'n cyfarfod bob wythnos, oni bai bod rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

Cyfarfodydd ar ddydd Llun: Yn wahanol i'r rhan fwyaf o bwyllgorau sydd â swyddogaeth ddeuol, rydym yn cyfarfod ar ddydd Llun, ac mae gennym batrwm am yn ail o slotiau prynhawn a slotiau drwy'r dydd. Nid ydym o'r farn bod cwrdd ar ddydd Llun wedi gosod baich ychwanegol gormodol ar yr Aelodau. Fodd bynnag, gwnaeth yr Aelodau gytuno na ddylid trefnu busnes cyn 10.30 a.m., a hynny er mwyn sicrhau nad oedd angen i Aelodau sy'n byw ymhellach i ffwrdd deithio i Gaerdydd ar nos Sul. Roedd y penderfyniad hwn yn ffordd o weithio y cytunwyd arni yn hytrach nag unrhyw drefniant mwy ffurfiol. Serch hynny, rydym yn credu'n gryf y dylai unrhyw amserlen fusnes ar gyfer y Senedd yn y dyfodol sicrhau tegwch i Aelodau o ran ble maent yn byw. Dylid sicrhau ymrwymiad pendant hefyd i ddiogelu dydd Gwener fel diwrnod gwaith etholaeth.

## 3. Rhyngweithio â phwyllgorau

Credwn y bydd rhai o'r dulliau gweithredu newydd, arloesol a fabwysiadwyd yn ystod y Senedd hon yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer pwyllgorau yn y Senedd nesaf. Mae nifer o'n hymchwiliadau wedi cynnwys dulliau gweithredu arloesol, gan gynnwys:

- Ymchwiliad i drais ar sail rhywedd: Gwnaethom sefydlu Grŵp Cyfeirio o oroeswyr â phrofiad byw, a rannodd eu hanesion gyda ni, gan ddarparu adborth a chyngor a lywiodd yr ymchwiliad ar bob cam. Roedd hyn yn cynnwys llywio'r dulliau o holi tystion, rhoi sylwadau ynghylch yr argymhellion drafft, a rhoi adborth ar ymateb Llywodraeth Cymru.

- **Ymchwiliad i'r bwlch cyflogaeth y mae pobl anabl yn ei wynebu:** Gwnaethon gymryd tystiolaeth gan bobl anabl drwy ddigwyddiadau ymgysylltu ac mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, gan sicrhau bod addasiadau ar waith i ddiwallu anghenion tystion ac i wneud y defnydd gorau o'n sesiynau tystiolaeth. Gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad a'r crynodebau perthnasol mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn i’w darllen yn uchel.

- **Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru):** Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil, rydym wedi sicrhau bod adnoddau ar gael mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL), gan gynnwys canllawiau i'r broses ddeddfwriaethol a’r holl ddogfennau ymgynghori, ac rydym wedi galluogi arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i gyflwyno eu tystiolaeth yn yr iaith honno. O ran ein trafodion, mae swyddogion ar draws gwasanaethau’r Comisiwn wedi cydweithio â rhanddeiliaid a chontractwyr i'n galluogi i dorri tir newydd mewn perthynas â hygyrchedd. Rydym wedi newid sut mae cyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal er mwyn gwella lefelau cyfranogiad. Rydym wedi galluogi arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain i ddilyn y trafodion drwy ddarparu gwasanaeth arwyddo byw i wylwyr ar Senedd TV a'r oriel gyhoeddus yn ystod pob sesiwn dystiolaeth gyhoeddus ar y Bil. Rydym hefyd wedi galluogi arwyddwyr Iaith Arwyddion Prydain Byddar i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn Iaith Arwyddion Prydain, a hynny drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn yr ystafell ac o bell dros Zoom.

**Iaith Arwyddion Prydain a hygyrchedd**

Pan fydd ein gwaith ar y Bil yn dod i ben, rydym yn bwriadu gwerthuso ein dull gweithredu a chofnodi unrhyw wersi a gaiff eu dysgu. Mae'r Bil hwn, a'n gwaith yn fwy cyffredinol, wedi rhoi cipolwg inni ar yr angen i ystyried ymhellach pa mor hygyrch yw'r Senedd i wahanol gynulleidfaoedd. Er bod ein dulliau gweithredu yn esblygu'n barhaus, credwn y byddai’n fuddiol edrych ar y mater hwn mewn ffordd fwy cadarn a systematig. Credwn y dylai'r Senedd geisio ymgysylltu'n uniongyrchol â chynulleidfaoedd, rhanddeiliaid ac arbenigwyr, gyda'r nod o ddatblygu dull gweithredu clir a chydlynol. Dylai’r broses hon gynnwys edrych ar oblygiadau ymarferol, technegol a moesegol gwahanol ddulliau, yn ogystal â’r goblygiadau o ran adnoddau, er mwyn nodi rhwystrau a darparu sail dystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Presenoldeb: Dylid cynnal cyfraddau presenoldeb uchel yn gyffredinol, ynghyd â disgwyliad cyffredinol bod yr Aelodau'n dangos ymrwymiad i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor. Er y dylai’r Senedd nesaf flaenoriaethu’r cam o leihau nifer yr Aelodau y bydd disgwyl iddynt wasanaethu ar fwy nag un pwyllgor, rydym hefyd yn credu y dylid disgwyl i bob Aelod o'r meinciau cefn wasanaethu ar bwyllgor.

Sancsiynau am beidio â bod yn bresennol (heb resymau dilys): Rydym yn cydnabod bod rhesymau dilys dros beidio â bod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor, gan gynnwys afiechyd neu brofedigaeth. Fodd bynnag, nodwn nad yw peidio â bod yn bresennol heb reswm dilys yn arwain at fawr o sancsiwn. Yn y Senedd nesaf, lle bydd y cysylltiad uniongyrchol rhwng yr Aelodau a'r etholwyr

yn wannach oherwydd y system rhestr gaeedig, bydd yn bwysicach fyth cyflwyno mesurau sydd â'r nod o sicrhau mwy o atebolrwydd. Ar ben hynny, wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Biliau Diwygio, mynegodd y Comisiynydd Safonau bryderon ynghylch y diffyg opsiynau pe bai Aelod yn penderfynu rhoi'r gorau i gyflawni ei ddyletswyddau am gyfnod.[2] Rydym yn croesawu'r ffaith bod cynigion deddfwriaethol yn cael eu datblygu mewn perthynas ag adalw Aelodau. Fodd bynnag, credwn y dylid ystyried creu sancsiynau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â phresenoldeb Aelodau mewn pwyllgorau ac/neu ar gyfer ymddygiadau sy'n brin o'r trothwy ar gyfer adalw Aelod. Yn y cyfamser, mae'n bosibl y byddai cyhoeddi data ynghylch presenoldeb pob Aelod, a hynny'n rheolaidd, yn gam ymarferol y gellid ei gyflwyno mewn da bryd ar gyfer y Senedd nesaf. Gallai hyn helpu i sicrhau bod cyfraddau presenoldeb yn cael eu cynnal.

Cyfarfodydd hybrid: Rydym yn darparu cymorth llawn ar gyfer cyfarfodydd hybrid mewn perthynas â bron pob math o waith pwyllgor, ac rydym yn cytuno y dylai trefniadau hybrid barhau yn y dyfodol. O safbwynt cydraddoldeb a chynhwysiant, mae galluogi tystion i ymddangos mewn fformat sy'n addas iddynt yn hanfodol, ac mae'r drefn hon wedi cynorthwyo'r broses o wella amrywiaeth y dystiolaeth sy'n dod i law, gan gynnwys o safbwynt daearyddiaeth. Pe bai unrhyw ymgais i gyfyngu ar yr hyblygrwydd y gall cyfarfodydd hybrid ei ddarparu, byddai gennym bryderon sylweddol ynghylch y goblygiadau i fenywod, pobl â chyfrifoldebau gofalu, a phobl anabl yn benodol. Ar ben hynny, mae'n bwysig nodi bod y pwyllgorau wedi bod yn defnyddio technoleg fideo-gynadledda ymhell cyn pandemig COVID, ac wedi cynnig yr opsiwn hwn i gyfranogwyr ers o leiaf ddechrau'r 2010au, er bod y nifer a fanteisiodd arno yn fwy cyfyngedig.

Sefyllfaoedd lle mae'n well bod yn bresennol yn y cnawd: Er gwaethaf ein cefnogaeth ar gyfer y fformat hybrid, mae sefyllfaoedd pan fo'n well os yw'r Aelodau'n bresennol yn y cnawd: er enghraifft, wrth gynnal sesiynau craffu gyda Gweinidogion a ffigurau cyhoeddus eraill neu ddeiliaid swyddi. O ran tystion nad ydynt yn Weinidogion, mae'n werth nodi ein bod yn gwahaniaethu rhwng sesiynau craffu (lle mae'r ffigur neu'r deiliad swydd yno i gael ei ddwyn i gyfrif) a sesiynau casglu tystiolaeth yn fwy cyffredinol. Dylai fod yn orfodol hefyd i Aelodau fod yn bresennol yn y cnawd ar gyfer trafodion Cyfnod 2.

[2]Pwyllgor Biliau Diwygio, craffu Cyfnod 1 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), 20 Medi 2025